

Croesawr i Sgowtio – Hysbyseb

- Ydych chi eisiau helpu i gynyddu'r nifer o oedolion newydd yn Sgowtio'n lleol?
- Ydych chi'n gallu trosi Sgowtio i mewn i iaith bob dydd i bobl sy ddim yn gwybod dim amdani?
- Oes gennych chi agwedd groesawgar, frwdfrydig a all ysbrydoli eraill i ymuno â'r antur?
- Ydych chi wrth eich bodd yn cwrdd â phobl newydd?

Rydych chi'n dda yn:

- Annog pobl i gymryd rhan a phrofi pethau newydd
- Hwyluso cyflwyniadau cyflym rhwng pobl
- Deall buddion gwirfoddoli hyblyg

Rydym yn dda yn:

- Gyrru cysylltiadau gwirfoddolwyr newydd atoch chi
- Eich cefnogi yn eich rôl a darparu adnoddau
- Eich cysylltu â Chroesawyr ScoutsCymru ledled Cymru

Rydym yn chwilio am dîm o Groesawyr ledled Cymru i gwrdd â a chroeso gwirfoddolwyr oedolion potensial i'ch milltir sgwâr, Ardal neu Ranbarth. Does dim ots beth yw'ch rôl o fewn Sgowtio os oes gennych yr angerdd a'r rhinweddau ar gyfer y rôl. Byddwch yn derbyn cyfeiriadau 'gwirfoddolwr tebygol' oddi wrth eich Swyddog Cefnogaeth Sgowtio a byddwch yn trefnu cwrdd ag ef yn eu cyfarfod adran cyntaf. Byddwch yn rhoi gwybod i'ch Swyddog Cefnogaeth Sgowtio sut wnaethon nhw a bydd eich adborth yn ein helpu'n barhaus i wella recriwtio a chadw gwirfoddolwyr newydd.

Croesawr i Sgowtio – Gwybodaeth

O ble mae hyn i gyd wedi dod?

Ledled Cymru mae gwir angen am gefnogaeth oedolion ychwanegol ar bob lefel o Sgowtio. O ganlyniad, mae ScoutsCymru wedi rhoi gwefan at ei gilydd (vacancies.scoutscymru.org.uk) sydd wedi ei chefnogi gyda hysbysebu ar Google a Facebook. Ar hyn o bryd, mae'r wefan yn cynhyrchu mwy na 300 o wirfoddolwyr potensial bob blwyddyn yng Nghymru. Nid ydym yn disgwyl i bob un o'r ceisiadau hyn droi yn wirfoddolwyr go iawn and rydym ni eisiau lleoli gymaint o oedolion newydd â phosibl. Rydym yn meddwl bod Croesawyr i Sgowtio yn hanfodol i hyn.

Pam fyddai hyn yn helpu?

Mae pobl sydd yn gwneud cais yn fwy tebygol o ddod yn wirfoddolwyr i Sgowtio petasen nhw'n cael cyflwyniad cyfeillgar, croesawgar amserol i Sgowtio a phetasen nhw'n cael gwahoddiad i weld Sgowtio go iawn yn digwydd mor gyflym ag sy'n bosibl.

Mae croesawyr lleol sy'n gwybod beth sy'n mynd ymlaen, sut mae'n cyd-fynd ag anghenion Grwpiau yn ogystal â'r Ardal a'r Rhanbarth, yn amhrisiadwy wrth ddarparu oedolion newydd gyda'r dechrau gorau wrth Sgowtio. Bydd ateb y cwestiynau fydd gan oedolyn newydd yn ogystal â gwneud cyflwyniadau i bobl berthnasol yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd person â diddordeb mewn gwirfoddoli yn Sgowtio yn cymryd rôl mewn gwirionedd.

Beth fydddech chi'n wneud?

Bydddech chi'n derbyn manylion gwirfoddolwyr potensial mae staff ScoutsCymru eisoes wedi cysylltu â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn ymgeisydd dilys sydd â diddordeb mewn darganfod mwy. Byddai i fyny i chi wedyn i sgwrsio â nhw, gweithio allan y lle gorau iddyn nhw ac i chi drefnu iddyn nhw weld Sgowtio ar waith.

Unwaith bod hyn wedi digwydd byddwch chi wedyn yn sicrhau bod yr oedolyn newydd wedi'i gysylltu ag aelod o Sgowtio a all eu cefnogi wrth iddyn nhw symud i mewn i rôl ac yna rhoi adborth i staff ScoutsCymru wrth i ni wella'r broses yn barhaus yn ogystal â thargedu hysbysebu lle bo ei hangen fwyaf.

Pa sgiliau sydd angen arnaf?

Rhaid i chi wybod hanfodion Sgowtio, sut mae'r mudiad yn gweithio a'r mathau o rolau sydd ar gael i oedolyn newydd. Cyn bwysiced yw'r gallu i drosglwyddo'r wybodaeth hon i rywun fydd efallai yn gwybod dim am Sgowtio o gwbl. Mae tynnu i ffwrdd y dirgelwch a'r jargon a thynnu llun o fod yn oedolyn o fewn Sgowtio mewn iaith bob dydd, glir yn hanfodol.

Gwneir cyfeiriadau ac adborth drwy e-bost a gallai cyfathrebu â'r gwirfoddolwyr fod drwy ystod eang o ddulliau, yn drydanol a chonfensiynol, felly mae bod yn gyfforddus â'r rhain yn bwysig.

Pa gefnogaeth cewch chi?

Mae ScoutsCymru yn benderfynol o leoli cymaint o'r 300+ o ymgeiswyr rydym yn eu derbyn yn flynyddol a byddwn yn cefnogi Croesawyr gyda beth bynnag maen nhw ei hangen.

Darperir awgrymiadau a chynghor ar sut i siarad â chynulleidfa allanol yn ogystal â chefnogaeth barhaus wrth i'r broses wella a datblygu.

Pa rôl Sgowtio fydd angen arnaf?

Does dim ots, byddai'r rôl hon yn wych i berson croesawgar, brwdfrydig sy'n gallu trosglwyddo neges Sgowtio i ystod eang o bobl. Gall hyn fod yn rhywun â rôl bresennol o unrhyw fath o fewn Sgowtio neu rywun sydd â chyfranogiad blaenorol.

Rwy'n gwneud hyn yn barod?

Gwych! Yn barod mae llawer o bobl ar draws Gymru sy'n gwneud swydd anhygoel o groesawu pobl newydd i mewn i Sgowtio, mae gan rai Ardaloedd oedolion gyda hyn fel canolbwynt yn barod. Os ydych yn gwneud hyn yn barod a byddech chi'n hapus i ofalu am gyfeiriadau o'r safle rolau gwag byddem wrth ein boddau clywed oddi wrthoch.